OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3270 (Cy.287)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - - *9 Rhagfyr 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *11 Rhagfyr 2009*
Yn dod i rym - - *1 Ionawr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, ac maent yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno a pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i unrhyw gyfeiriad at offeryn y Gymuned Ewropeaidd gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau yw Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) (Diwygio) 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, a deuant i rym ar 1 Ionawr 2010.

Diwygiadau i Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006 (**3**) yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) Dileer diffiniad o "gweithrediad a gymeradwywyd",

(b) Yn y man priodol mewnosoder y diffiniadau canlynol—

(**1**) O.S. 2005/2766. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o ac Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2006/3343 (Cy. 304), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2900 (Cy. 251).

"ystyr "gweithrediad a gymeradwywyd neu gost sefydlu a gymeradwywyd" ("*approved operation or approved setting up cost*") yw gweithrediad neu gost sefydlu y mae Gweinidogion Cymru wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ar gyfer cael cymorth ariannol, ac mae "cymeradwyo" ("*approve*") a "cymeradwyaeth" ("*approval*) i'w dehongli'n unol â hynny;

ystyr "cost sefydlu" ("*setting up cost*") yw gwariant a dynnir neu sydd i'w dynnu wrth sefydlu ffermwyr ifanc yn unol ag Erthygl 7 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1857/2006 ar 15 Rhagfyr 2006 ar gymhwysiad Erthyglau 87 ac 88 o'r Cytuniad i gymorth gwladwriaethol i fusnesau bach a chanolig sy'n weithgar ym maes cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 70/2001."(**4**).

(3) Yn rheoliadau 3(1), 6(1), 7(1)(a), 7(1)(b), 7(2)(a), 7(7), 8(1) 9(1), 9(1)(ch), 9(1)(e), 9(1)(f), 9(1)(ff), 9(1)(h), 9(2)(b) ar ôl "gweithrediad a gymeradwywyd" mewnosoder "neu gost sefydlu a gymeradwywyd".

(4) Yn rheoliadau 4(1) a 9(2)(a) ar ôl "gweithrediad" mewnosoder "neu gost sefydlu".

(5) Yn lle rheoliad 4(2), rhodder—

"**4.**—(2) Caiff Gweinidogion Cymru,

(i) ar yr amod eu bod wedi'u bodloni bod gweithrediad y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn gymwys i gael cymorth Cymunedol, gymeradwyo'r gweithrediad hwnnw, neu

(ii) gymeradwyo'r gost sefydlu ar gyfer cael cymorth ariannol, a chaniateir rhoi cymeradwyaeth o'r fath yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag y caiff Gweinidogion Cymru eu penderfynu.".

(6) Yn rheoliad 8(1) yn lle "â'r gweithrediad hwnnw" mewnosoder " â gweithrediad neu gost sefydlu".

(7) Yn yr Atodlen—

(a) Ym mharagraff 4 disodler y cofnod gan y testun canlynol—

"**4.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1120/2009 dyddiedig 29 Hydref 2009 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu'r cynllun taliad sengl y darperir ar ei gyfer yn Nheitl III o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol i ffermwyr o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr."(**5**);

(b) Ym mharagraff 5 disodler y cofnod gan y testun canlynol—

"**5.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1122/2009 dyddiedig 30 Tachwedd 2009 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 o ran trawsgydymffurfio, modiwleiddio a'r system integredig gweinyddu a rheoli, o dan y cynlluniau cymorth uniongyrchol i ffermwyr y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad hwnnw, yn ogystal â gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran trawsgydymffurfio o dan y cynllun cymorth a ddarperir i'r sector gwin."(**6**);

(c) Ym mharagraff 6 disodler y cofnod gan y testun canlynol—

(**4**) OJ Rhif 358, 16.12.2006, t. 3.
(**5**) OJ Rhif 316, 2.12.09, t. 1.
(**6**) OJ Rhif 316, 2.12.09, t. 65.